

RHAID HYSBYSU'R CYNGOR AM Y GWAITH

Mae cyflogaeth yn cynnwys cymorth mewn unrhyw fasnach neu alwedigaeth sy'n cael ei chynnal er elw, p'un a dderbynnir tâl neu beidio am y cymorth hwnnw.

Cyfrifoldeb y cyflogwr yw hysbysu'r Awdurdod am waith y plentyn o fewn un wythnos i gyflogi'r plentyn.

Mae'r hysbysiad hwn i gynnwys datganiad o ffitrwydd y plentyn i weithio, a chymeradwyaeth i'r plentyn gael ei gyflogi, wedi ei gwblhau gan riant y plentyn; yn ogystal ag:-

- enw a chyfeiriad y cyflogwr ei hun
- enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn
- yr oriau a'r dyddiau y mae'r plentyn i gael ei gyflogi, yr alwedigaeth y mae'r plentyn i gael ei gyflogi ynddi, manylion y dasg dan sylw ac, os bydd yn wahanol i gyfeiriad y cyflogwr, lleoliad y gwaith;
- manylion yr ysgol y mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig ynddi;
- datganiad yn mynegi bod asesiad risg addas wedi ei gynnal gan y cyflogwr; a
- 2 lun diweddar maint pasbort o'r plentyn, wedi eu llofnodi ar y cefn gan y plentyn a'i gyflogwr.



Wedi derbyn yr hysbysiad uchod, lle bo'r awdurdod yn fodlon bod:

- a) y gyflogaeth arfaethedig yn gyfreithlon;
- b) na fydd iechyd a lles y plentyn na'i allu i gymryd mantais lawn o'i addysg ef/hi yn cael ei beryglu; a
- c) bod y plentyn yn ffit i ymgymryd â'r gwaith y mae wedi ei gyflogi ar ei gyfer;

bydd yn rhoi trwydded waith i'r plentyn, y bydd yn rhaid i'r cyflogwr ei chadw'n ddiogel yn y lleoliad gwaith a'i dangos i'w harchwilio pan ofynnir iddo wneud hynny gan swyddog awdurdodedig o'r awdurdod, neu swyddog yr heddlu, a bydd yn rhoi cerdyn llun adnabod i'r plentyn, fydd yn cynnwys enw a llun y plentyn a dyddiad cyhoeddi'r cerdyn.

Cyn rhoi trwydded waith, efallai y bydd yr awdurdod yn gofyn i'r plentyn gael archwiliad meddygol.

An employment permit will state:

- a) enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn;
- b) yr oriau a'r dyddiau y mae'r plentyn i gael ei gyflogi, yr alwedigaeth y mae'r plentyn i gael ei gyflogi ynddi, manylion y dasg dan sylw a lleoliad y gwaith;
- c) bod rhaid i'r plentyn beidio â gweithio am fwy na 12 awr yn unrhyw wythnos y mae'n ofynnol iddo ef/hi fynychu'r ysgol.

Ni cheir cyflogi plentyn ond yn unol â'r manylion a ddangosir ar y drwydded waith a roddir gan yr awdurdod.

For more information contact:
**The Team Leader for Attendance
in the authority's Children and
Schools Directorate:**

☎ 01437 764551



Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro



Gwasanaeth Cefnogi Disgyblion Sir Benfro



**Gwybodaeth i Rieni
plant
sy'n gweithio**

Pembrokeshire County Council
("the authority")

Children & Schools Directorate
County Hall, Haverfordwest,
Pembrokeshire, SA61 1TP

☎ 01437 764551

www.sir-benfro.gov.uk

COFIWCH, OS GWELWCH YN DDA

Mae gwaith ysgol yn aml yn drwm iawn ac felly gwnewch yn siwr fod eich plentyn yn gallu ymdopi â'i astudiaethau os oes ganddo waith. Ni ddylai gwaith rwystro cynnydd eich plentyn yn yr ysgol.

BODLONWCH EICH HUN

- fod y gwaith yn ddiogel;
- fod eich plentyn yn ffit i weithio
- eich bod wedi rhoi cadarnhad eich bod yn hapus i'ch plentyn gael ei gyflogi;
- Eich bod wedi codi unrhyw bryderon gyda'r Swyddog Cefnogi Disgyblion yn ysgol eich plentyn.

SYLWCH OS GWELWCH YN DDA:

- Rhaid i blant fod yn **13 mlwydd oed** i allu gweithio. Ni cheir cyflogi plentyn 14 mlwydd oed neu drosodd ond i waith ysgafn. Ni cheir cyflogi plentyn 13 mlwydd oed ond i waith ysgafn yn un neu ragor o gategorïau penodedig o waith.
- Ni cheir cyflogi unrhyw blentyn am fwy na 2 awr ar ddiwrnod ysgol ac yn bendant **DDIM** yn ystod oriau ysgol (1 awr cyn ac 1 awr ar ôl oriau ysgol; neu 2 awr ar ôl oriau ysgol).
- Ni cheir cyflogi'r un plentyn am fwy na 12 awr yn unrhyw wythnos y mae'n ofynnol iddo ef/hi fynychu'r ysgol.
- Ni chaiff yr un plentyn weithio cyn **7:00 a.m.** nac ar ôl **7:00 p.m.**
- Ni chaiff yr un plentyn weithio ar ddydd Sul am fwy na 2 awr.
- Ar ddydd Sadwrn ac yn ystod gwyliau'r ysgol, ar unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sul, caiff plant dan 15 mlwydd oed weithio uchafswm o **5** awr y dydd a chaiff plant 15 mlwydd oed neu



- drosodd weithio uchafswm o **8** awr y dydd.
- Yn unrhyw wythnos pan nad yw'n ofynnol i'r plentyn fynychu'r ysgol, ni chaiff plant dan 15 mlwydd oed weithio am fwy na **25** awr yr wythnos, a chaiff plant 15 mlwydd oed neu drosodd weithio uchafswm o **35** awr yr wythnos.
 - Ni chaiff yr un plentyn weithio am fwy na 4 awr yn unrhyw ddiwrnod heb seibiant o 1 awr.
 - Rhaid i blentyn sy'n cael ei gyflogi gael dwy wythnos yn olynol o leiaf heb waith yn ystod gwyliau'r ysgol.
 - Mae yna rai mathau o waith na chaniateir i blant o fewn oed ysgol gorfodol eu gwneud; edrychwch, os gwelwch yn dda, ar is-ddeddfau Cyngor Sir Penfro sy'n cynnwys datganiad o'r canlynol:

Ni cheir cyflogi plentyn o unrhyw oed:-

- a) mewn sinema, theatr, discotéc, neuadd ddawns na chlwb nos, ac eithrio mewn cysylltiad â pherfformiad a roddir yn gyfan gwbl gan blant
- b) i werthu neu ddanfôn alcohol, ac eithrio mewn cynwysyddion dan sêl;
- c) i ddanfôn llefrith;
- d) i ddanfôn olew tanwydd;
- e) mewn cegin fasnachol;
- f) i gasglu neu ddiolli sbwriel;
- g) yn unrhyw waith sydd yn fwy na thair metr uwchlaw lefel y ddaear neu, yn achos gwaith mewnol, mwy na thair metr uwchben lefel y llawr;
- h) mewn gwaith sy'n golygu bod yn agored, i gyfrwng ffisegol, biolegol neu gemegol, niweidiol.
- i) i gasglu arian neu i werthu neu ganfasio o ddrws i ddrws, ac eithrio dan oruchwyliaeth oedolyn;
- j) mewn gwaith sy'n golygu bod yn agored i ddeunyddiau oedolion neu mewn sefyllfaoedd sydd, am y rheswm hwn neu fel arall, yn anaddas i blant;
- k) mewn gwerthu dros y ffôn;
- l) yn unrhyw ladd-dy neu yn y rhan honno o siop cigydd neu adeilad arall cysylltiedig â lladd anifeiliaid, bwtsiera, nac yn y gwaith o baratoi sgerbydau neu gig i'w werthu;
- m) fel gwas neu gynorthwydd mewn ffair neu arcéd difyrrwch neu ar unrhyw safle arall a ddefnyddir i'r pwrpas o ddiwyru'r cyhoedd drwy gyfrwng peiriannau awtomatig, gemau siawns neu sgil neu ddyfeisiadau tebyg;
- n) i roi gofal personol i breswylwyr unrhyw gartref gofal preswyl neu nyrsio ond o dan oruchwyliaeth oedolyn cyfrifol.